# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Bargoed**

**Cartref Gofal Bargoed**
**Heol Fargoed**
**Bargoed**
**CF81 8PQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Bargoed

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Omnia Care Home Group Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 45 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [24 Chwefror 2021] |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb


Mae’r bobl yn hapus, ac yn mwynhau byw yng Nghartref Gofal Bargoed. Mae perthnasau'r bobl yr un mor hapus â'r gwasanaeth. Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl ac i gyflawni canlyniadau da.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed ac maent yn byw mewn llety sy'n cynnal y gwiriadau diogelwch a'r gwaith cynnal a chadw gofynnol. Mae'r cynlluniau wrth gefn yn gadarn ac wedi cael eu defnyddio'n ddiweddar mewn ffordd effeithiol iawn.

Mae gan y bobl sy'n symud i mewn i Gartref Gofal Bargoed gynllun symud holistaidd ac mae cynlluniau gofal ar waith cyn iddynt gyrraedd. Mae'r cynlluniau gofal o safon uchel ac yn cael eu cadw'n gyfredol. Caiff adolygiadau eu cwblhau'n rheolaidd gyda'r unigolyn neu ei gynrychiolydd ac maent yn ystyried y gofal a ddarperir a chyflawniadau'r unigolyn. Mae prosesau effeithiol iawn ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth yn ddiogel ac fel y'i rhagnodwyd. Cydnabuwyd effeithiolrwydd y prosesau hyn gan weithwyr iechyd proffesiynol allanol.

Mae'r amgylchedd o safon uchel ac yn cael ei bersonoli'n unol ag anghenion a dewisiadau'r bobl sy'n byw yno.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn eithriadol. Ceir ymrwymiad clir i hyrwyddo datblygiad a chynnydd y staff. Mae'r gwasanaeth yn arloesol wrth ddatblygu tîm o staff sy'n meddu ar amrywiaeth o sgiliau. Roedd y staff yn gadarnhaol wrth sôn am eu rolau ac am y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac maent yn cael eu cefnogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Os nad yw hyn yn bosibl, gwneir penderfyniadau ar ran yr unigolyn ac er lles pennaf yr unigolyn hwnnw. Mae prosesau priodol ar waith i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn ddiogel, ac mae'r staff yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol. Caiff y bobl eu cefnogi hefyd i fod yn rhan o benderfyniadau am y gwasanaeth yn gyffredinol, ac mae'r gwaith adnewyddu sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn enghraifft o hyn. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr a pherthnasau yn rheolaidd, a gellir rhoi cymorth i'r bobl fynychu'r cyfarfodydd hyn os byddant am wneud hynny.

Caiff y bobl eu cefnogi i gadw mor iach â phosibl. Gall y bobl gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau i hyrwyddo hyn, sy'n cynnwys gweithgareddau grŵp a gweithgareddau unigol. Gwelsom y bobl yn mwynhau ffilm gyda'i gilydd ac yn chwarae bingo, a dangosodd un person yr hyn roedd wedi'i wneud mewn sesiwn grefft ddiweddar i ni. Hefyd gwelsom enghreifftiau o'r bobl yn dilyn eu diddordebau eu hunain naill ai yn eu hystafelloedd eu hunain neu yn yr ardaloedd a rennir. Dywedodd y bobl wrthym am weithgareddau Nadolig diweddar, gan nodi *"there was so much going on here, there was something happening every day"*. Soniwyd yn gynnes am ymweliad gan gôr o ysgol leol, ac am ymweliad gan asyn 'cyfeillgar'. Dangoswyd ffotograffau i ni o daith yr aeth rhai o'r bobl arni yn gynharach yn ystod y flwyddyn lle roeddent wedi mwynhau amser yn yr awyr agored a hufen ia.

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal cydberthnasau sy'n bwysig iddynt ac i feithrin cydberthnasau newydd, er enghraifft gyda'r bobl eraill sy'n byw yn y gwasanaeth. Ar y cyfan, mae'r staff yn teimlo bod digon o amser ar gael iddynt feithrin cydberthnasau â'r bobl, heb fod angen iddynt ruthro. Soniodd perthnasau am y cyfathrebu rhagorol gan y gwasanaeth ac roeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am lesiant eu perthnasau yn fawr. Dywedodd un perthynas wrthym*"they can't do enough for my Mam, she wants for nothing here, what ever she need, she has"*. Soniodd person arall wrthym am y *"massive improvements"* roedd wedi eu gweld yn ei anwylyd ers iddo symud i'r gwasanaeth, a disgrifiodd y gwasanaeth fel*"meticulous in everything they do - I cant ever thank them enough".*

Gall y bobl gael gwasanaeth yn Gymraeg os byddant am gael hynny, gyda dau aelod o'r staff llawn amser sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn siarad Cymraeg yn rhugl. Caiff diwylliant Cymru ei hyrwyddo, a chaiff digwyddiadau a dathliadau sy'n gysylltiedig â Chymru eu dathlu.

Caiff y bobl eu diogelu rhag achosion posibl o niwed neu gamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal wedi cael hyfforddiant diogelu, ac yn nodi y byddent yn teimlo'n hyderus i drafod unrhyw bryderon â'r rheolwr neu'r Unigolyn Cyfrifol ac y byddai camau gweithredu yn cael eu cymryd. Mae polisi diogelu ar waith yn y gwasanaeth er mwyn rhoi arweiniad ychwanegol, pe byddai ei angen.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal nyrsio a gofal preswyl.  Mae'r bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen, sy'n eu galluogi i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae'r staff yn y gwasanaeth yn adnabod y bobl yn dda, ac os bydd angen, gallant ragweld a nodi anghenion y bobl ar eu rhan.

Mae dull 'tîm cyfan' ar waith wrth helpu unigolion i symud i mewn i'r gwasanaeth. Cyn i unigolyn symud i mewn i Gartref Gofal Bargoed, bydd y rheolwr yn cyfarfod ag ef i gwblhau asesiad cyn derbyn a chaiff cynlluniau gofal eu rhoi ar waith cyn i'r unigolyn symud i mewn. Mae'r gwasanaeth yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y broses o symud unigolyn i mewn i'r gwasanaeth yn bleserus ac yn gadarnhaol.

Caiff iechyd a llesiant y bobl eu monitro er mwyn sicrhau y caiff unrhyw newid ei nodi'n gyflym. Mae'r cynlluniau gofal yn ddogfennau 'byw' a chânt eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r staff gofal yn gweithio gyda'r bobl, neu eu perthnasau, i adolygu'r tri mis diwethaf ac i ystyried llesiant y person ac a yw'n fodlon ar y gofal y mae'n ei gael. Dyma gyfle hefyd i'r bobl drafod unrhyw newidiadau a chyflawniadau ers yr adolygiad diwethaf a myfyrio arnynt.

Roedd gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth, gan sôn am gydberthynas waith dda, y ffaith bod gwybodaeth gywir yn cael ei darparu a bod y gwasanaeth yn cyfathrebu mewn modd amserol. Hefyd gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y bobl yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol pan fo angen er mwyn cynnal eu llesiant a sicrhau eu bod yn aros mor iach â phosibl.

Mae'r gwasanaeth yn rhagweithiol wrth chwilio am gyfleoedd i ddysgu a datblygu er budd y bobl sy'n byw yno. Mae rhai aelodau o'r staff wedi manteisio ar adnoddau a hyfforddiant pellach er mwyn dod yn 'hyrwyddwyr' o fewn maes gofal penodol a ddarperir. Mae 'gofal y geg' a hefyd 'symud a chodi a chario' yn enghreifftiau rhagorol o hyn. Hefyd gwelsom dystiolaeth o'r arferion yn y cartref yn cael eu rhannu ag eraill yn y sector gofal fel enghreifftiau o arfer da.

Caiff y bobl eu cefnogi i gymryd eu meddyginiaeth yn ddiogel ac fel y'i rhagnodwyd. Mae'r prosesau sydd ar waith yn rhagorol ac mae'r arweinydd clinigol yn y gwasanaeth yn ardderchog wrth oruchwylio'r holl brosesau meddyginiaeth yn y gwasanaeth.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau byw yn y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym*“everyone here is marvellous, they have been so supportive to me, I wouldn’t want to be anywhere else*”. Dywedodd un perthynas wrthym *“Whenever I visit, Mam is always clean, her bedding has always been changed and is clean, we can’t complain, they go above and beyond to look after her”.*

## Yr Amgylchedd

Mae Cartref Gofal Bargoed yn lân, yn daclus ac yn groesawgar. Mae mynedfa'r cartref yn ddigon diogel, ac yn arddangos yr hyrwyddwyr Cymraeg sy'n gweithio yn y cartref yn glir. Mae'r aelodau hyn o staff yn rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu cefnogi'r bobl yn Gymraeg yn ôl yr angen. Mae murlun yn y cartref hefyd sy'n dangos hanes a diwylliant glofaol Cymru, y mae llawer o bobl yn y cartref yn uniaethu ag ef.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu llesiant yn llwyr ac yn eu galluogi i fod mor annibynnol â phosibl. Mae cyfarpar arbenigol priodol ar gael ac yn cael ei brofi a'i gynnal a'i gadw'n dda.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi gweithio gyda'r bobl a'r staff i benderfynu ar y prosiect ailaddurno nesaf. Mae hyn wedi datblygu'n gystadleuaeth gyda'r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o ailddylunio'r lolfa ar eu llawr nhw, neu, os nad yw hyn yn bosibl, caiff eu diddordebau, eu hanghenion a'u dewisiadau eu hystyried.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi swyddog cynnal a chadw llawn amser sy'n rhan o'r cyfarfodydd dyddiol ac yn cwblhau gwaith atgyweirio yn ôl yr angen. Hefyd mae amserlen o waith cynnal a chadw ar waith er mwyn cynnal safon uchel y cartref ac i ymateb i achosion o draul cyffredinol wrth iddynt godi. Yn ddiweddar, gwnaed gwaith i ddiweddaru'r lloriau, y dodrefn a rhai ffenestri.

Caiff y cyfleustodau a'r cyfleusterau yn y cartref eu cynnal a'u gwasanaethu'n briodol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio ac yn addas at y diben. Caiff y cyfleusterau diogelwch tân yn y cartref eu profi'n rheolaidd ac mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân. Mae gan bob person Gynllun Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng.

Cafodd y gwasanaeth broblemau â thoriad trydan yn ddiweddar, a hynny am gyfnod estynedig. Rhoddodd y rheolwr y cynllun wrth gefn mewn argyfwng manwl ar waith a chafwyd gafael ar amrywiaeth o adnoddau mewnol ac allanol ar unwaith. O ganlyniad, nid effeithiwyd ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarparwyd, nac ar ddiogelwch a llesiant y bobl. Mae gweithwyr proffesiynol allanol wedi canmol y cartref ar y ffordd y llwyddodd i reoli'r sefyllfa.

Mae gan y bobl eu hystafelloedd gwely eu hunain, sydd wedi'u personoli'n unol â'u dewisiadau a'u diddordebau. Caiff blychau atgofion sy'n bersonol i'r unigolyn eu creu a'u harddangos wrth ymyl drws ystafell wely'r unigolyn. Mae rhai ystafelloedd gwely a rennir yn y cartref â lle i ddau berson gyda'i gilydd. Hefyd mae nifer o gyfleusterau ymolchi ar bob llawr i'r bobl eu defnyddio. Mae arwyddion clir ar ddrysau'r cartref i helpu'r bobl i ganfod eu ffordd o amgylch y cartref. Mae'r arwyddion hyn ar uchder sy'n briodol i'r bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y gwasanaeth dîm arwain a rheoli rhagorol, ac mae prosesau llywodraethu cadarn ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn hwylus. Mae'r trefniadau llywodraethu clinigol sydd ar waith yn eithriadol, ac yn sicrhau bod y bobl mor iach â phosibl. Mae'r trefniadau hyn yn helpu'r bobl i gyflawni ac i gynnal y canlyniadau a nodir yn eu cynlluniau gofal a chymorth.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gwbl ymrwymedig i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel i'r bobl ac mae'n rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiadau sydd o fudd i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Caiff yr ethos hwn ei adlewyrchu yn Natganiad o Ddiben y gwasanaeth, a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd ac sy'n cynnig disgrifiad cywir o'r gwasanaeth a ddarperir.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn aml ac yn cwblhau adroddiad ar ansawdd y gofal bob chwe mis. Caiff yr adroddiadau hyn eu cwblhau i safon dda ac maent yn ystyried yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a'r hyn y gellir ei wneud i wella ymhellach. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl a'r staff wrth wneud y penderfyniad hwn, ac yn edrych ar y cofnodion manwl a gedwir gan y tîm rheoli ac arwain.

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod nifer priodol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n addas yn gweithio yn y gwasanaeth. Cynhelir y gwiriadau cyn cyflogi cywir ar gyfer pob aelod o'r staff cyn iddynt ddechrau gweithio, er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y rôl. Unwaith y byddant wedi'u cyflogi, mae'r staff yn cwblhau cyfnod sefydlu manwl sy'n cynnwys hyfforddiant a threfniadau ar gyfer gweithio gyda 'chyfaill' hyd nes y byddant yn gwbl gymwys ac yn hyderus yn eu rôl.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn awyddus iawn i ddatblygu'r staff er mwyn *"promote from within"* ac mae wedi defnyddio dulliau arloesol i greu tîm o staff sy'n meddu ar amrywiaeth o sgiliau. Mae llawer o'r staff gofal a nyrsio yn y gwasanaeth wedi gweithio yno ers sawl blwyddyn, sy'n darparu cysondeb da i'r bobl. Mae'r staff gofal a nyrsio yn siarad yn gadarnhaol iawn am eu swyddi ac yn hapus yn eu rolau. Dywedodd un aelod o'r tîm gofal mai cryfder mwyaf y gwasanaeth yw *"everyone pulling together as a team and having the training to be able to help in different areas of the home".*

Mae pob aelod o'r staff yn y cartref yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd â'u rheolwr llinell. Mae'r staff clinigol yn cael sesiynau goruchwylio â chlinigydd addas yn y gwasanaeth. Yn ogystal, mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal, ac mae gan y rheolwr 'bolisi drws agored' sy'n golygu y gall staff siarad ag ef ar unrhyw adeg.

Mae'r gwasanaeth yn dathlu cyflawniadau'r staff ac mae'r bobl a'r staff yn y gwasanaeth yn pleidleisio i ddewis 'aelod o staff y mis' bob mis.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/03/2024